

Cofnodion o Cyfarfod Cyngor Cymuned Llangeitho a gynhelir ar nos Lun
7 Chwefror 2022 arlein, trwy zoom am 8.00 o'r gloch
Minutes of Llangeitho Community Council Meeting held on Monday,
7 February 2022, online through Zoom at 8.00pm

Presennol/Present

Cyng Daniel Thomas (Gadair/Chair), Gwilym Evans, Emyr Jones, Eirian Jones, Gwenfair Owen, Paul Rook a Cyng/Cllr Rhodri Evans

Ymddiheuriadau/Apologies – Cyng/Cllr Beryl Evans a Cyng/Cllr Rhian Turner.

Datgan Diddordeb/Declaration of Interest – Neb / No one

Adroddiad yr Heddlu / Police Report

Derbyniwyd adroddiad dros zoom gan PCSO John Evans o'r digwyddiadau yn y gymuned dros y misoedd diweddar a soniwyd am y drefn newydd efo swyddfa'r Heddlu yn Llambed.

Cofnodion y cyfarfod diwethaf/Minutes of previous meeting

Cytunwyd fod cofnodion mis Ionawr yn gywir ar gynnig Cyng Emyr Jones ac eiliwyd gan Cyng Gwilym Evans.

Materion yn codi o'r cofnodion/Matters arising from minutes

- Gwaith oddi amgylch y goeden Ywen wedi'u gwblhau, Clerc i hawlio'r grant oddi wrth CADW.
- Trefnwyd bod Cyng Rhodri Evans, Cyng Gwilym Evans a Cyng Emyr Jones yn cwrdd i ymweld a safleodd oedd angen sylw a gwaith i'w wneud ym Mhenuwch ar ddydd Gwener 11 Chwefror 2022 am 10 y bore.
- Cyng Rhodri Evans i drefnu cwrdd a cwmni BARCUD i drafod y posibilrwydd o barcio ar y lawnt tu allan i tai Gwynfil.
- Tyllai ar y ffordd o Parcrhydderch i Betws Leucu wedi'u llenwi yn foddhaol.
- Trafodwyd a chytunwyd fod hi'n syniad da plannu blodau yn y dair gymuned, Cadeirydd i edrych fewn i grantiau ar gael. Syniad i gael y plant yn yr Ysgol i gymerid rhan a gofyn i Huw Richards, Trewaun am ei gyngor profiadol yn y maes yma. Trafodwyd y syniad i gael is-bwyllgor o'r tair ward i gwrdd dros zoom. Cynhelir cyfarfod o'r trefniadau'r Eisteddfod yn fuan lle byddai'r cadeirydd yn mynychu a gwneud ymchwil i blannu blodau yn y gymuned.

Llyn Fanod

Cadeirydd wedi cysylltu a Chris Bates ond dim newyddion wedi'u dderbyn. Cadeirydd hefyd wedi siarad a'r cyfreithiwr o Abertawe ac wedi addo llythyr yn y post i'r Clerc i'w hystyried. Os byddai'r llythyr yn awgrymu mynd i'r Llyfrgell Genedlaethol i astudio'r 'resitals', soniwyd bod y Cadeirydd yn bodlon gwneud yr ymchwil.

Cyfrifon/Accounts

- Zoom £14.39 (24.01.22)
- Cyflog y Clerc £111.67 (Ionawr)

Cytunwyd i dalu'r uchod ar gynnig Cyng Eirian Jones ac eiliwyd gan Cyng Daniel Thomas.

Gohebiaeth/Correspondence

- Derbyniwyd e-bost oddi wrth Bro360 yn cyflwyno ei hunain a'r prosiect pilot diweddar sydd ganddynt yn ardal bro Tregaron i greu a chynnal gwefan streon lleol – Caron360. Clerc i gylchredeg yr e-bost at sylw'r cynghorwyr er gwybodaeth.
- Cylchredwyd gwahoddiad i barti gardd Palas Buckingham – dim gweithrediad.

Cyngor Sir Ceredigion County Council

Ymgeisydd: Davies
Safle: Parcrhydderch, Llwynygroes, Tregaron, SY25 6QG
Y Bwriad: Proposed dwelling (Tan 6.4.5 second dwelling on established farm)

Cytunwyd i gefnogi'r cais ar gynnig Cyng Gwilym Evans ac eiliwyd gan Cyng Emyr Jones.

Un Llais Cymru/One Voice Wales

Dim i'w gofnodi.

Swydd Clerc/Post of Clerk

Mewn trafodaethau efo'r Cadeirydd, Clerc a'r Cynghorydd Sir, drafftwyd a hysbysebwyd swydd Clerc mewn nifer o lefydd a chytunwyd ar ddydiad cau i fod erbyn 5 o'r gloch ar 7fed o Chwefror, ni dderbyniwyd unrhyw ddiddordeb na chais i law. Trafodwyd y mater yn helaeth a chytunwyd i ail hysbysebu gan ofyn i'r Cynghorwyr i ymchwilio oddi amgylch ffrindiau a'r gymuned. Cynnigwyd hysbysebu yn y Cambrian news. Clerc i gysylltu a'r Cambrian news am brisiau.

Sedd Wag Ward Llanbadarn Odwyn/Vacant seat in Llanbadarn Odwyn Ward

Cytunwyd i aros tan yr etholiad yn mis Mai.

Unrhyw Fater Arall/Any Other Business

- Nifer o bryderon am y diffyg casglu sbwriel ar amser yn ein cymunedau.
- Soniwyd pe bae ceisiadau cynllunio ddim yn cael ei pasio, ni fyddai dim yn digwydd nes ar ôl yr Etholiad gan fod Purdah yn dechrau 17 Mawrth 2022.
- Cyng Gwenvair Owen i edrych i fewn i hanes a'r traddodiadau barddol ar Fferm Parchrhydderch.
- Soniodd y Cynghorydd Sir am nifer o grantiau oedd ar gael ar hyn o bryd.
- Yn dilyn trafodaethau efo teulu'r diweddar John Evans, soniwyd am y posibilrwydd o gael peiriant di-ffib i gofio am John Evans. Soniwyd am y pryder dros gael peiriannau diffib yn y wardiau a neb yn edrych ar ei hol, Clerc i ddod o hyd i lythyr ac anfonwyd i Pwyllgor y Neuadd, Llangeitho, rhai blynyddoedd nol, yn trosglwyddo'r cyfrifoldebau i Pwyllgor y Neuadd ac nid i'r Cyngor Cymuned. Angen edrych mewn i'r posibilrwydd o dderbyn grantiau ar gyfer cael peiriant yn Ward Llanbadarn Odwyn a ail gydio yn sesiynnau hyfforddiant oedd wedi'u drefnu wrth iddynt fynd mewn i Covid 19 ar ddechrau 2020.
- Cais trwy e-bost wedi'u dderbyn oddi wrth Sioban Buttimer, Pwyllgor Cyfeillion Ysgol Rhos Helyg, ar ran Dragon Bags, i ddodi bin derbyn dillad ail-gylchu/ail-law ar bwys y biniau gwydr ar bwys Dolaeron. Trafodwyd y cais yn fanwl a gofynnir i'r Cadeirydd ddilyn ein consyrns lan efo Mrs Buttimer, ac i wneud yn siwr nad oedd yn ymharu efo'r casgliad presennol oddi wrth Neuadd yr Eglwys. Bydd angen gwneud yn siwr pwy fydd yn dilyn lan efo'r trefnadau pe bae Mrs Buttimer yn gadael Cyfeillion yr Ysgol ac yn y blaen. Hefyd roedd yna bach o gonsern am effaith weledol ar y gilfan a'r biniau a soniwyd am y posibilrwydd o blannu coed wrth ochr y biniau, Cadeirydd i wneud ymholiadau.

Dyddiad a Lleoliad y cyfarfod nesaf/Date & location of next meeting

Gan nad oedd yna unrhyw fater arall i'w drafod, cynhelir y cyfarfod nesaf ar nos Lun 7fed o Fawrth 2022 am 8 o'r gloch dros Zoom, a soniwyd, oherwydd Purdah ni chynhelir cyfarfod mis Ebrill na ddechrau mis Mai. Angen cynnal y cyfarfod blynyddol cyffredinol o fewn 18 diwrnod i'r Etholiad.